**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**DYDD MAWRTH, 4 HYDREF 2022**

**IS-BWYLLGOR (POLISI AC ADNODDAU) Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: S.K.Hunt, S.A.Knoyle a/ac A.Llewelyn

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

C.Griffiths, R.Headon, H.Jones a/ac J.Stevens, C.L John a/ac J.Woodman-Ralph

**Gwahoddedigion:**

Cynghorydd: P.Rogers (Cadeirydd Craffu)

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd penodi'r Cyng. S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/2023**

Yn y cyfarfod cadarnhawyd bod y Flaenraglen Waith yn cael ei diweddaru ar hyn o bryd ac y byddai ar gael yn y cyfarfod nesaf.

4. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 21/22**

**Penderfyniad:**

Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol wneud newidiadau angenrheidiol i'r adroddiad blynyddol cyn ei gyhoeddi,

ar yr amod nad yw newidiadau o'r fath yn newid yn sylweddol gynnwys y ddogfen a ystyriwyd gan Is-bwyllgor (Polisi ac Adnoddau) y Cabinet.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Galluogi'r cyngor i fodloni'r gofynion statudol a nodwyd yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sul, 9 Hydref 2022.

5. **STRATEGAETH HYRWYDDO'R GYMRAEG 21/22**

**Penderfyniad:**

Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol wneud newidiadau angenrheidiol i'r adroddiad blynyddol cyn ei gyhoeddi, ar yr amod nad yw newidiadau o'r fath yn newid yn sylweddol gynnwys y ddogfen a ystyriwyd gan Is-bwyllgor (Polisi ac Adnoddau) y Cabinet.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i fodloni'r gofynion a nodwyd yn Safonau'r Gymraeg.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sul, 9 Hydref 2022.

6. **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT A DATGANIADAU ARIANNOL CRONFA'R DEGWM AR GYFER 2021-22.**

**Penderfyniad:**

1. Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Drafft a Datganiadau Ariannol Cronfa'r Degwm ar gyfer 2021-22.

2. Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol Drafft a'r Datganiadau Ariannol i Swyddfa Archwilio Cymru i'w harchwilio'n annibynnol.

3. Cyflwyno'r cyfrifon i'r Comisiwn Elusennau, os nad oes unrhyw newidiadau materol yn cael eu nodi gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i gymeradwyo'r adroddiad blynyddol drafft a'r datganiadau ariannol ar gyfer Cronfa'r Degwm
2021 – 22.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sul, 9 Hydref 2022.

7. **CEISIADAU CRONFA GRANT AMRYWIOL**

**Penderfyniadau:**

1. Rhoi £6,800 y flwyddyn i Ymddiriedolwyr Community Ventures Port Talbot CIC tuag at gostau rhent o £7,150 y flwyddyn mewn perthynas â phrydlesu Canolfan Gymunedol Baglan.

2. Rhoi £13,600 y flwyddyn i Ymddiriedolwyr Community Ventures Port Talbot CIC tuag at gostau rhent o £14,300 y flwyddyn mewn perthynas â Chanolfan Addysg yn y Gymuned Tai-bach.

3. Rhoi £680 y flwyddyn i Ymddiriedolwyr Dyfed Road Bowls Association tuag at gostau rhent o £715 y flwyddyn mewn perthynas â phrydlesu'r Pafiliwn Bowls ar Safle Chwaraeon Heol Dyfed.

4. Rhoi £2,040 y flwyddyn i Ymddiriedolwyr Clwb Rygbi a Phêl-droed Aberavon Green Stars tuag at gostau rhent o £2,145 y flwyddyn mewn perthynas â phrydlesu Caeau Chwarae a'r Pafiliwn yng Nghaeau Chwarae Little Warren Port Talbot.

5. Rhoi £10,000 y flwyddyn i MMI Trading with Care Ltd. tuag at gostau rhent o £10,600 y flwyddyn mewn perthynas â phrydlesu Ysgol Brynhyfryd.

6. Rhoi £570 y flwyddyn i Gyngor Cymuned Pelenna tuag at gostau rhent o £600 y flwyddyn mewn perthynas â phrydlesu tir yng Nghae Chwarae Miles End, Tonmawr.

7. Rhoi £330 y flwyddyn i Ymddiriedolwyr Gwynfi Affiliated Sports Project (GASP) tuag at gostau rhent o £350 y flwyddyn mewn perthynas â phrydlesu tir nas defnyddir yn Park Lane, Blaengwynfi.

8. Rhoi grant o £250 i Sefydliad Criced Wales Seniors mewn perthynas â chynrychioliad gan breswylydd lleol sy'n chwarae ar gyfer Clwb Criced Tata Steel yng Nghwpan Criced y Byd Agoriadol i bobl dros 60 oed yn Brisbane, a gynhaliwyd ym mis Medi 2022.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**
I ystyried swm y cymorth ariannol mewn perthynas â'r dyraniadau grant a dderbyniwyd

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sul, 9 Hydref 2022.

## 8. CRONFA'R DEGWM CASTELL-NEDD PORT TALBOT

**Penderfyniad:**

Gwneud grant o 25% o gyfanswm y gost go iawn ar gael, hyd at uchafswm o £1,000 tuag at gostau gwaith i ailaddurno'r fynedfa, grisiau x 2, capel bach ac ardal gegin yn Eglwys Bedyddwyr Saesneg Sardis.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cytuno ar swm y cymorth ariannol mewn perthynas â'r cais grant a dderbyniwyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am, 9 Hydref 2022.

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CANMOLIAETH A CHWYNION 2021-2022

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2021/2022

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

11. **POLISI'R DDEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

12. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

PENDERFYNWYD: Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) o Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

13. **DILEU DYLEDION Y MÂN DDYLEDWYR (EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Bod cymeradwyaeth yn cael ei rhoi i ddileu'r symiau fel y'u nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i ddileu dyledion cyfrifon nad oes modd eu hadennill.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sul, 9 Hydref 2022.

14. **DILEU DYLEDION Y MÂN DDYLEDWYR (EITHRIEDIG GAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Dileu'r dyledion nad oes modd eu hadennill a gynhwysir yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Nid oes modd adennill y dyledion.

**<u>Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:</u>**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sul, 9 Hydref 2022.

**CADEIRYDD**